

## Cwestiynau cyffredin

# Cynigion ar gyfer rheolaethau pysgota newydd i amddiffyn stociau eogiaid a brithyllod y môr yn Afon Wysg ac Afon Gwy.

## Cynnwys

Stociau Pysgod	1
Asesiadau o Stoc	6
Cynigion	11
Arall	15

## Stociau pysgod

### C1. Beth yw cylch bywyd yr eog a'r brithyll?

**Eogiaid:** Mae'r eog (*Salmo salar*) yn cychwyn bywyd yn llawer o afonydd Cymru. Yn gyffredinol, mae silio yn digwydd yn yr hydref a'r gaeaf, gydag eog benywaidd yn dyddodi rhwng 1,000 a 2,000 o wyau wedi'u ffrwythloni (ofa) y cilogram o bwysau'r corff mewn nyth (neu gladd) wedi'i wneud yng ngwaelod graean afonydd.

Mae'r deor yn digwydd y gwanwyn canlynol. Mae'r eogiaid ifanc yn dod allan o'r graean fel silod mân i ddechrau bwydo. Ar ôl iddynt fyw am flwyddyn, gelwir y pysgod ifanc yn frithyllod brych. Yn dilyn cyfnod o un i dair blynedd mewn dŵr croyw, mae'r brithyllod brych yn mynd trwy newid ffisiolegol, morffolegol ac ymddygiadol, ac yn symud ymlaen i oedran gleisio, sy'n caniatáu iddynt addasu i fyw mewn dŵr halen fel gleisiaid. Ar yr adeg hon yn eu cylch bywyd, heibio'r cam o reoleiddio poblogaeth sy'n ddibynnol ar ddwysedd, gall ysglyfaethu fod yn ffactor sy'n dylanwadu'n andwyol ar feintiau stoc yn y dyfodol.

Mae gleisiaid yn mudo i'r môr yn y gwanwyn ac, ar ôl treulio blwyddyn neu ddwy flynedd, neu dair blynedd mewn rhai achosion prin, yn y môr, maent yn dychwelyd fel eogiaid llawn dwf i'w hafonydd gwreiddiol i silio. Mae'r mwyafrif o eogiaid yn marw ar ôl silio gyda dim

ond cyfran fach, eogiaid benyw yn bennaf, yn dychwelyd i silio eto yn dilyn taith arall i'r môr.

**Brithyllod:** Mae brithyll y môr a'r brithyll yr un rhywogaeth (*Salmo trutta*). Mae cyfuniad o eneteg a ffactorau amgylcheddol yn golygu bod rhai brithyllod yn mynd i'r môr i fwydo cyn dychwelyd i silio. Gelwir y rhain yn frithyllod y môr neu siwin (brithyllod mudol). Gelwir y rhai sy'n aros yn yr amgylchedd dŵr croyw yn frithyllod.

Mae silio yn digwydd yn gyffredinol yn yr hydref a'r gaeaf, gyda brithyllod benyw yn dyddodi rhwng 800 a 1,600 o wyau wedi'u ffrwythloni (ofa) y cilogram o bwysau'r corff i mewn i gladd a wneir yng ngwaelod graean nentydd ac afonydd. Mae'r wyau'n deor yn y gwanwyn, ac mae'r brithyllod ifanc yn tyfu am oddeutu dwy flynedd cyn dewis aros yn yr afon lle gallant aeddfedu fel brithyllod; neu gallant fynd trwy newidiadau'r oedran gleisio sy'n debyg i rai eogiaid, ac yna mudo i'r môr.

Yn gyffredinol, mae gleisiaid brithyllod y môr yn ffurfio heigiau a gyda'i gilydd maent yn mudo i'r môr, fel arfer tua diwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill, yn ystod y nos. Ar yr adeg hon yn eu cylch bywyd, heibio'r cam o reoleiddio poblogaeth sy'n ddibynnol ar ddwysedd, gall ysglyfaethu fod yn ffactor sy'n lleihau eu niferoedd ac effeithio'n andwyol ar feintiau stoc yn y dyfodol.

Mae rhai brithyllod y môr sydd mewn heigiau bach (y cyfeirir atynt yn aml fel 'gwyniaid môr') yn dychwelyd i'w hafonydd genedigol i silio, weithiau ar ôl dim ond ychydig fisoedd yn y môr, tra bod eraill yn aros ar y môr am flwyddyn cyn dychwelyd. Mae brithyllod y môr fel arfer yn ymuno â'n hafonydd ar unrhyw adeg o fis Ebrill ymlaen, ond bydd y mwyafrif yn cyrraedd yn yr haf (Mehefin i Awst).

Yn wahanol i'r mwyafrif o eogiaid, nid yw brithyllod y môr fel arfer yn marw ar ôl silio. Mae tua 75% o frithyllod y môr yn dychwelyd i'r môr i fwydo ac yna'n dod yn ôl eto i'r afon i silio, weithiau am sawl blwyddyn yn olynol.

## C2. Pam mae stociau eogiaid a brithyllod yn bwysig?

Mae eogiaid a brithyllod wedi'u dosbarthu'n eang o amgylch Cymru. Mae 23 o afonydd wedi'u dynodi'n 'brif afonydd eogiaid'. Mae llawer o'r afonydd hyn hefyd yn arwyddocaol am eu stociau brithyllod y môr a physgodfeydd ac maent yn rhan bwysig o'n 33 o 'brif afonydd brithyllod y môr' a physgodfeydd yng Nghymru.

Mae'r eog yn rhywogaeth a restrir o dan Atodiad 2 o Gyfarwyddeb Cynefinoedd y Comisiwn Ewropeaidd (Cyfarwyddeb Cyngor 92/43/EEC ar gadwraeth cynefinoedd naturiol a fflora a ffawna gwyllt) ac ar hyn o bryd, mae'n cyfrannu at ddynodiad chwe afon yng Nghymru fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA): Gwy, Wysg, Teifi, Eden Cors Goch - Trawsfynydd, Gwyrfaï a Llyn Cwellyn, Dyfrdwy a Llyn Tegid. Yn yr adroddiad ar gyflwr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig y DU yn 2019, adroddwyd ar statws eog yr Iwerydd fel 'Anffafriol-Annigonol', oherwydd yr aseswyd ei boblogaeth a'i ragolygon ar gyfer y dyfodol yn annigonol.

Rhestrir eogiaid a brithyllod y môr fel rhywogaethau â blaenoriaeth yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU, ac ar hyn o bryd mae'r ddau yn cael eu hystyried fel y rhai sydd fwyaf dan fygythiad ac yn gofyn am gamau gweithredu cadwraethol.


Bydd stociau eogiaid a brithyllod y môr cynaliadwy yn cefnogi pysgodfeydd pwysig yng Nghymru, gyda gwerth economaidd-gymdeithasol uchel i gymunedau a'r wlad gyfan.

### C3. A yw'r stociau yn Afon Gwy ac Afon Wysg yn wahanol i weddill Cymru?

Mae statws y stociau o eogiaid a brithyllod y môr yn Afon Wysg ac Afon Gwy yn debyg i'r statws a welir ledled Cymru.


Mae'r asesiad diweddaraf o'n stociau eogiaid yn dangos bod lefelau cydymffurfio â therfynau cadwraeth a thargedau rheoli ledled Cymru gyfan yn wael iawn. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae stociau'n perfformio'n wael ar hyn o bryd, ac nid ydynt yn cydymffurfio â'u terfynau cadwraeth a'u targedau rheoli (Ffigur. 1). Yn benodol, mae'r holl stociau eogiaid mewn cyflwr gwael ('Mewn Perygl' neu 'Mewn perygl yn ôl pob tebyg' o fethu â bodloni eu hamcan rheoli). Er bod hyn i raddau helaeth yn adlewyrchu gostyngiad rhyngwladol o ran niferoedd eogiaid a nodwyd yn eu dosbarthiad dros y ddau i dri degawd diwethaf, mae'n bwysig nodi bod cyfyngiadau lleol hefyd i les stociau.

Ffigur 1 Statws 'risg' ar gyfer y prif afonydd eogiaid yng Nghymru: 2019 (y set ddata ddiffiniol ddiweddaraf).



Mae stociau brithyllod y môr wedi dirywio mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, gyda 27 o'r 33 o brif afonydd brithyllod y môr mewn cyflwr gwael ('Mewn perygl' neu 'Mewn perygl yn ôl pob tebyg' o fethu â bodloni eu hamcan rheoli). Mewn llawer o achosion, mae diffygion sylweddol o ran niferoedd wyau (Ffigur. 2).

Ffigur 2 Statws 'risg' ar gyfer prif afonydd brithyllod y môr yng Nghymru: 2019 (y set ddata ddiffiniol ddiweddaraf).




#### C4. Beth yw statws eogiaid a brithyllod ifanc ledled Cymru?


Cynhelir rhaglen flynyddol o fonitro eogiaid ifanc i nodi amrywiad gofodol yn y poblogaethau ifanc a thueddiadau amserol yn eu niferoedd. Mae hyn yn llywio camau rheoli lleol, gan hefyd ddiffinio statws y stociau. Asesir y cynefin ar bob safle hefyd fel y gellir cymharu niferoedd y boblogaeth o eogiaid ifanc ar unrhyw safle ag amodau cyfeirio safonol.

Er bod niferoedd brithyllod brych yn gyffredinol (epil y brithyllod a'r brithyllod môr mudol) wedi aros yn gymharol sefydlog (Ffig. 3), mae niferoedd yr eogiaid ifanc (silod mân a brithyllod brych) wedi parhau i ostwng o ran nifer a dosbarthiad gofodol ledled Cymru (Ffig. 4).

Ffigur 3 Tueddiadau yn nifer y brithyllod mewn safleoedd monitro brithyllod ifanc (135) ledled Cymru.




Ffigur 4 Tueddiadau yn nifer yr eogiaid mewn safleoedd monitro eogiaid ifanc (135) ledled Cymru.



Mae cynllun dosbarthu hefyd yn cael ei gymhwyso fel bod y canran o safleoedd sy'n dod o fewn gwahanol ddsbarthiadau o ran niferoedd eogiaid (Dosbarthiadau A i F) yn mesur iechyd y poblogaethau o eogiaid ifanc ar gyfer pob afon. Mae Ffigur 5 yn cyflwyno canran y safleoedd ym mhob dalgylch sy'n dod o fewn y tri chategori uchaf (Dosbarthiadau A i C) dros y cyfnod o 2014 i 2019. Felly, ar gyfer dalgylchoedd sydd wedi'u lliwio'n goch, mae 25% neu lai o safleoedd yn dod o fewn y categori hwn, ond ar gyfer y rheini sydd wedi'u lliwio'n wyrdd, mae mwy na 75% o safleoedd ar y cyfartaledd neu'n uwch. At ei gilydd, roedd tua hanner (51%) y safleoedd a arolygwyd dros y cyfnod yn y ddau ddsbarth isaf (Dosbarthiadau E neu F).



Ffigur 5 Mynegeion niferoedd eogiaid ifanc ar gyfer pob dalgylch, a gyflwynir fel canran yr arolygon yn nosbarthiadau A i C yn unig, 2014 i 2019.



Mae canlyniadau rhaglenni monitro diweddar ar gyfer eogiaid ifanc wedi peri pryder difrifol iawn. Yn dilyn gaeaf eithriadol o wlyb a chynnes yn 2015/2016, bu gostyngiad ar raddfa eang ledled Cymru yn y nifer o silod mân 0+ yn y rhan fwyaf o'r afonydd, gan gynnwys rhai afonydd ble roedd y silod mân bron yn absennol yn gyfan gwbl, yn enwedig Afon Wysg.

## C5. Beth achosodd y dirywiad sydyn yn nifer yr eogiaid ifanc yn Afon Wysg?

Dangosodd ein gwaith monitro pysgod blynyddol yn 2016 bod gostyngiad amlwg yn nifer yr eogiaid ac, i raddau llai, niferoedd silod mân brithyllod yn sgil silio yng ngaeaf 2015/2016. Roedd hyn yn fwyaf nodedig yn Afon Wysg, ond roedd hefyd yn amlwg yn Afon Gwy. Gwelwyd bod niferoedd isel y silod mân yn gysylltiedig â niferoedd y brithyllod brych yn 2017.

Roedd y canlyniadau yn ddigynsail. Canfuwyd bod yr effaith ar raddfa eang ledled Cymru ac roedd hefyd yn amlwg, i raddau amrywiol, yn Lloegr, Iwerddon a Ffrainc. Roedd hyn yn awgrymu bod ffactor cyffredin ar raddfa eang yn gysylltiedig, ond gallai materion eraill hefyd fod yn arwyddocaol ar raddfa fwy lleol.

Rydym o'r farn bod gostyngiad 2016 wedi digwydd oherwydd i 2015 fod y tymor silio cynhesaf hyd yma, gyda'r tymereddau uchaf erioed wedi'u cofnodi ar gyfer mis Rhagfyr (Gregory et al, 2020). Roedd hyn yn golygu bod y tymereddau dŵr yr adroddwyd yn helaeth amdanynt mewn llenyddiaeth flaenorol wedi arwain at fethu â silio. Hefyd, bu sawl digwyddiad llif uchel yn ystod y tymor silio hwn yn Afon Wysg ac Afon Gwy.

Nid yw niferoedd yr eogiaid ifanc wedi gwella i'r lefelau a welwyd cyn 2016 yn Afon Wysg hyd yn hyn, ac maent yn parhau i fod yn destun pryder difrifol. Mae niferoedd yr eogiaid llawn dwf sy'n dychwelyd hefyd yn isel ar hyn o bryd ac mae'n debygol y byddant yn cymysgu â'r niferoedd isel o eogiaid ifanc.

Rydym wedi cynnal gwaith monitro ychwanegol yn Afon Wysg ers 2016 (oni bai am 2020 oherwydd cyfyngiadau COVID-19) ac wedi defnyddio'r dystiolaeth honno i lywio ein gwaith. Byddwn yn parhau i fonitro Afon Wysg ac Afon Gwy, gan weithio gyda Sefydliad Gwy ac Wysg i sicrhau bod gennym rwydwaith arolygu hyblyg ac ystyrlon ar waith, a mynediad at yr holl ddata perthnasol.

Yn 2021, dechreuon ni brosiect olrhain gleisiaid eogiaid yn Afon Wysg i ymchwilio a oedd unrhyw fannau cyfyng yn rhwystro ymfudiad gleisiaid i lawr yr afon. Mae'r prosiect wedi rhoi data da inni a byddwn yn ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni. Bydd yn cael ei ategu yn 2022 a thu hwnt er mwyn meithrin gwybodaeth am ffactorau sy'n amharu ar ymfudiad gleisiaid, ac yn cael ei ddefnyddio i arwain camau rheoli yn y dyfodol.

## Asesiadau o Stoc

### C6. Pryd fydd yr adolygiad o asesiadau stoc wedi'i gwblhau?

Roedd Cyfarwyddyd Gweinidogol 1998 yn gosod gofyniad ar Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Lloegr (y mae CNC wedi ymgymryd â'i rôl a'i ddyletswyddau ar gyfer pysgodfeydd yng Nghymru) i "sicrhau bod gweithdrefnau gosod targedau ac asesu cydymffurfiaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn ystyried gwelliannau mewn methodolegau a data newydd". O ganlyniad, mae CNC, gan weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu, yn cynnal adolygiad o'r fath ar hyn o bryd. Mae'r ymrwymiad i wneud hynny wedi'i gynnwys yng [Nghynllun Gweithredu NASCO ar gyfer Cymru a Lloegr](#) sydd wedi derbyn cymeradwyaeth ac ymrwymiad gweinidogol.

Mae'r adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd, ond nid yw'r gwelliannau wedi'u cadarnhau eto. Rydym yn adolygu'r fethodoleg asesu, yn ogystal â'r cynllun cydymffurfio cysylltiedig a'r Strwythur Penderfyniadau i ystyried yr angen am welliannau posibl. Y nod yw ymgymryd â hyn o fewn y tair blynedd nesaf, gyda'r tebygrwydd y bydd gwelliannau'n cael eu cyflwyno fesul cam wrth i'r datblygiadau gael eu caniatáu. Yr amserlen arfaethedig ar gyfer cyflawni yw 2022.

### C7. Pam ydych chi'n dibynnu ar ddatganiadau ar ddalfeydd pan fyddwch chi'n asesu cydymffurfiaeth â'r Cyfyngiadau Cadwraeth?

Ymhlith yr oddeutu 80 o brif afonydd eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru a Lloegr, mae naw (Tyne, Test, Itchen, Hants Avon, Frome, Tamar, Fowey, Dyfrdwy, Lune) ar hyn o bryd yn 'afonydd wedi'u monitro'. O'r herwydd, maent yn gweithredu dyfeisiau cyfrif/trapiau i ddarparu amcangyfrifon o nifer yr eogiaid (a brithyllod y môr mewn rhai achosion) sy'n dychwelyd bob blwyddyn.

Mae pedair o'r afonydd hyn - Tyne, Tamar, Dyfrdwy a Lune - yn cael eu dosbarthu fel 'Afonydd Mynegai' oherwydd y wybodaeth fiolegol ychwanegol y maent yn ei chasglu ar y stoc (e.e. oedran, hyd, pwysau, rhyw, ac ati).

Ar gyfer pob prif afon eogiaid a brithyllod y môr, mae gennym ddata dalfeydd. Ar gyfer y data hwn, rydym yn defnyddio ffigurau ar gyfradd ecsbloetio pysgota a gafwyd o'n rhwydwaith o afonydd wedi'u monitro (Afonydd Mynegai) i amcangyfrif - o ddalfeydd gwialen - nifer y pysgod silio llawn dwf a'u cyfraniad wyau i asesu cydymffurfiad â'r Cyfyngiadau Cadwraeth.

## **C8. A yw'r ddibyniaeth ar ddatganiadau ar ddalfeydd i wneud yr asesiad yn ddiffygiol? Mae cyfraddau derbyn datganiadau ar gyfer trwyddedau yn wael, ac efallai na fydd pysgotwyr yn datgan yr hyn y maent yn ei ddal.**

Nid oes yr un ffynhonnell ddata yn berffaith, ond nid yw hynny o reidrwydd yn ei gwneud yn annibynadwy, nac yn golygu y dylid ei hanwybyddu.

Mae datganiadau ar ddalfeydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr ar gael ar gyfer pob prif afon yng Nghymru a Lloegr ac maent ymhlith ein setiau data mwyaf hirsefydlog a chyson.

Ers cyflwyno'r system datganiadau ar ddalfeydd gwialen genedlaethol gyfredol yn gynnar yn y 1990au, mae cyfanswm nifer y trwyddedau gwialen a werthir bob blwyddyn yng Nghymru a Lloegr wedi aros yn gymharol sefydlog (tua 33,000 ar gyfartaledd) ynghyd â chyfran y trwyddedeion sy'n cyflwyno datganiad ar eu dalfa.

Mae mwyafrif y pysgod yn cael eu dal gan ddeiliaid trwydded lawn gyda chonsesiwn, ond ychydig iawn o bysgod y mae deiliaid trwydded tymor byr a deiliaid trwydded ifanc yn eu dal. Gan ystyried y gwahaniaethau hyn, gellir gwneud amcangyfrifon o'r gyfradd datgan dalfeydd (h.y. cyfran y cyfanswm datganedig o ddalfeydd). Mae'r amcangyfrifon hyn oddeutu 90% ar gyfartaledd, ac fe'u defnyddiwyd fel ffactor cywiro ar sail genedlaethol i gynhyrchu cyfanswm amcangyfrifon dalfeydd gwialen ar gyfer afonydd unigol o'u ffigurau datganedig ar gyfer dalfeydd. Defnyddir cyfanswm yr amcangyfrifon hyn i gynhyrchu ffigurau blynyddol o ran dyddodiad wyau ar gyfer asesu cydymffurfiad â'r Cyfyngiadau Cadwraeth.

Mae ystadegau dalfeydd yn darparu rhai o'r dangosyddion mwyaf gwerthfawr o berfformiad stociau a physgodfeydd. Mae hyn yn amlwg o'r (i) patrymau cyffredin sydd weithiau'n bresennol mewn cofnodion dalfeydd gwahanol a gasglwyd dros nifer o flynyddoedd a'r (ii) cysylltiadau cryf sy'n bodoli rhwng dalfeydd â gwialen a'r amcangyfrifon annibynnol o swm y pysgod sy'n mudo'n flynyddol, a geir yn ein hafonydd sy'n cael eu monitro.

O'r herwydd, gall cofnodion dalfeydd ddarparu mewnwelediad hanesyddol unigryw i niferoedd a chyfansoddiad stociau eogiaid a brithyllod y môr (e.e. sy'n ofynnol i archwilio a deall effeithiau prosesau tymor hwy - fel newid yn yr hinsawdd - a allai barhau dros ddegawdau) ac maent yn gwneud hynny, ond maent hefyd yn amlwg yn hanfodol i'r gweithdrefnau cyfredol ar gyfer asesu stociau.

Mae'n hanfodol bod systemau cofnodi dalfeydd yn aros mor gyson ac effeithiol â phosibl, er mwyn cynnal ansawdd y data a gesglir a sicrhau nad yw cywirdeb asesiadau cysylltiedig yn cael ei gyfaddawdu.



## C9. A yw'r Cyfyngiad Cadwraeth yn ddigon uchelgeisiol?

Mae Ffigur 1 yn yr achos technegol yn cyfeirio at dri Phwynt Cyfeirio Biologol:

1. Cyfyngiad Cadwraeth
2. Targed Rheoli
3. Uchafswm Allbwn Gleisiaid:

Mae'r Cyfyngiad Cadwraeth wedi'i osod ar bwynt 'Uchafswm Cynnyrch Cynaliadwy'; h.y. y pwynt lle gellir (ar gyfer cromlin recriwtio stoc benodol a llinell pysgod newydd) gwneud y mwyaf o ddalfeydd mewn pysgodfeydd.

O dan y Cyfyngiad Cadwraeth, mae stociau'n dod yn fwyfwy agored i niwed ac mewn perygl o ddirywio a gostwng mewn niferoedd. Felly, mae ein 'hamcan rheoli' yn rhagofalus a'i nod yw sicrhau bod stociau'n aros yn uwch na'r Cyfyngiad Cadwraeth am bedair blynedd allan o bump, ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i'r Targed Rheoli - pwynt ar y cromlin recriwtio stoc sydd rywfaint uwchlaw'r Cyfyngiad Cadwraeth, sy'n amddiffyn stociau yn addas.

Mae'n bosib y gwnaed defnydd o'r trydydd pwynt cyfeirio - yr Uchafswm Allbwn Gleisiaid - ar gyfer asesu stoc hefyd. Dyma'r mwyaf amddiffynnol o'r tri phwynt cyfeirio, gan ei fod yn ceisio caniatáu i ddigon o bysgod silio er mwyn sicrhau cymaint o allbwn â phosibl o ddalgylch; felly byddai rheoli tuag at y pwynt hwn yn gofyn am fwy o gyfyngiadau ar y pysgodfeydd.

## C10. Beth yw'r Strwythur Penderfyniad?

Mae'r Strwythur Penderfyniad (Atodiad 1) yn ddiagram llif syml i helpu i nodi lefel a math yr ymyrraeth ym maes rheoli pysgodfeydd sy'n ofynnol i fynd i'r afael â stociau yr aseswyd eu bod yn pasio'n ffurfiol ('ddim mewn perygl') neu'n methu ('mewn perygl') eu Cyfyngiadau Cadwraeth, neu mewn rhyw sefyllfa yn y canol ('ddim mewn perygl yn ôl pob tebyg', 'mewn perygl yn ôl pob tebyg').

Mae'r Strwythur Penderfyniad wedi'i ddefnyddio wrth reoli pysgodfeydd eogiaid yng Nghymru a Lloegr ers blynedd bellach ac felly bydd yn gyfarwydd i'r mwyafrif o bysgodfeydd.

## C11. Pam nad yw dalfeydd mor uchel ag yr oeddent yn arfer bod, er gwaethaf defnyddio Cyfyngiadau Cadwraeth i reoli stociau eogiaid?

Dau brif ffactor sy'n debygol o fod yn atal poblogaethau eogiaid islaw'r lefelau a welsom yn hanesyddol:

- Goroesiad morol gwael - y cyfraddau goroesi presennol yw'r isaf a gofnodwyd, ac maent yn llai na thraean o'r gyfradd a welwyd oddeutu 30 mlynedd yn ôl. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, am bob 100 o leisiaid sy'n gadael yr afon, y byddai tua phump yn goroesi i ddychwelyd fel pysgod llawn dwf heddiw, o gymharu â thua 15 dri degawd yn ôl. Mae'r dirywiad mewn goroesiad morol wedi effeithio ar yr

amrediad o stociau eogiaid ar draws Gogledd yr Iwerydd, yn enwedig pysgod yn sector deheuol y gogledd-ddwyrain, gan gynnwys Cymru a Lloegr.

- Ansawdd amgylcheddol gwaeth na'r hyn a ragwelwyd gan ein model Cyfyngiadau Cadwraeth ar gyfer eogiaid (sy'n rhagdybio amgylchedd dŵr croyw digyfnewid); h.y. mae 'capasiti cario' dalgylchoedd o ran cynhyrchu gleisiaid yn llai na'r meincnod 'digyfnewid'. Mae hyn yn debygol o fod yn llai cyffredin i bob man fel ffactor na goroesiad morol, ond gallai fod yn bwysig yn lleol.

Mae'r gostyngiad mewn goroesiad morol yn debygol o fod wedi'i yrru gan amodau amgylcheddol niweidiol ar y môr sydd fwy na thebyg yn gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae hwn yn destun ymchwil helaeth ar draws Gogledd yr Iwerydd, gan gynnwys rhaglen [SALSEA](#) Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd. Wrth gwrs, nid oes llawer y gallwn ei wneud i unioni amodau amgylcheddol morol newidiol (ar wahân i amddiffyn dyfroedd aberol ac ar y lan rhag datblygiadau niweidiol neu bysgodfeydd anghyfreithlon, ac ati), felly bu'n rhannol ofynnol i gyfyngiadau cynyddol ar bysgodfeydd dros y 10-20 mlynedd ddiwethaf wneud iawn am oroesiad morol pysgod.

## **C12. Sut y bydd CNC yn egluro'r dirywiad mewn genweirwyr yn yr asesiadau stoc ar ôl dal a rhyddhau? A yw llai o bysgota yn golygu llai o bysgod sy'n arwain at asesiad stoc gwallus?**

Mae risg y bydd mesurau dal a rhyddhau gorfodol yn atal rhai genweirwyr rhag pysgota - felly gall ymdrech, a dalfeydd, ostwng. Fodd bynnag, mae'r mesurau arfaethedig ar gyfer dal a rhyddhau yn ailsefydlu'r hyn sydd eisoes ar waith yn Afon Wysg ac Afon Gwy ac wedi bod ers 2012. Mae tystiolaeth o Afon Gwy yn awgrymu nad yw dal a rhyddhau wedi arwain at ddirywiad amlwg yn yr ymdrech bysgota yn yr afon; yn hytrach, mae'r dyddiau yr adroddwyd bod pysgota'n digwydd yn Afon Gwy wedi cynyddu yn ystod y deng mlynedd diwethaf.

Yn rhannol, mae'r dulliau a ddefnyddir i amcangyfrif cyfradd ecsbloetio pysgota (a ddefnyddir i ddarganfod swm y pysgod sy'n mudo o ddalfeydd ar afonydd lle nad oes cyfrif pysgodfa annibynnol o nifer y pysgod sy'n dychwelyd) yn ystyried ymdrech bysgota - felly pe bai newid i'r ymdrech bysgota, byddai hyn yn cael ei nodi. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang bod angen gwella'r dulliau hyn a bod gwaith yn y maes hwn yn cael ei ddatblygu.

Pryder arall yw mewn afonydd lle mae dalfeydd yn disgyn i lefelau isel iawn, naill ai oherwydd bod llai o bysgotwyr yn pysgota a/neu oherwydd bod stociau'n parhau i ddirywio, y gallai ein dulliau asesu, sydd mor ddibynnol ar ddalfeydd, ddod yn annibynadwy.

Un ffordd o fynd i'r afael â hyn yw gwneud gwell defnydd o wybodaeth arall sy'n annibynnol ar bysgodfeydd yn y broses asesu stoc - sef data arolygon electrobysgota ar niferoedd pysgod ifanc. Dyma'r dull a ddefnyddir yn Iwerddon, lle mae canlyniadau arolygon electrobysgota wedi'u hamseru ar ymdrech isel (5 munud) - sy'n caniatáu i nifer o safleoedd gael eu pysgota ar y prif ddalgylchoedd bob blwyddyn - yn cael eu defnyddio i sbarduno'r broses o ailagor pysgodfeydd sydd wedi bod ar gau oherwydd statws gwael stociau. Yn yr achos hwn, rhaid cyrraedd cyfrif trothwy penodol (cyfartalog) o bysgod ifanc cyn y gellir ailagor pysgodfa (a bydd data dalfeydd ar gael eto i'w ddefnyddio wrth asesu stoc).

Rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer ymgorffori data electrobysgota pysgod ifanc yn ffurfiol mewn gweithdrefnau asesu stoc. Mae hyn yn debygol o gynnwys defnyddio data o'r fath yn rheolaidd ochr yn ochr â data dalfeydd - nid pan fydd dalfeydd yn disgyn i lefelau isel iawn neu hyd yn oed yn absennol yn unig.

### **C13. A yw dal a rhyddhau yn gweithio?**

Mae adroddiad Cyngor Rhyngwladol Archwilio'r Môr 2020 yn nodi:

“Ers 1993, mae daliadau gwialen yn cynnwys cyfran gynyddol o bysgod sydd wedi cael eu dal a'u rhyddhau. Yn 2020, amcangyfrifir dros dro bod 10,672 o eogiaid (93% o'r ddalfa) wedi'u rhyddhau ledled Cymru a Lloegr, y ganran uchaf a gofnodwyd erioed. Amcangyfrifir bod pysgod a ryddhawyd wedi cyfrannu mwy na 21 miliwn o wyau i'r boblogaeth fridio.”

Roedd Is-ddeddfau Cenedlaethol Eogiaid y Gwanwyn yn rhan o nifer o fesurau a roddwyd ar waith ym 1999 i atal y dirywiad yn nifer eogiaid y gwanwyn yn ein hafonydd. Ers hynny, mae rhai afonydd yn dangos cynnydd bach yn nifer y pysgod gwanwyn sy'n dychwelyd (er enghraifft afon Dyfrdwy, Hafren a Gwy), sy'n dangos ei bod yn ymddangos bod hyn wedi bod yn llwyddiant.

Gall niferoedd cymharol fach o bysgod fod yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i adfer stoc, a nodir y bydd budd cronrus dros amser. Felly, mae'n hanfodol bod stociau silio yn cael eu cynyddu i'r eithaf os yw poblogaethau am gael y siawns orau o ymadfer.

## **Cynigion**

### **C14. Am ba hyd y bydd y cynigion yn para?**

Rydym wedi cynnig y dylai'r mesurau newydd fod ar waith tan 31 Rhagfyr 2029, heb unrhyw adolygiad canol tymor. Dewiswyd y dyddiad hwn i gyd-fynd â dyddiadau cyfnod yr is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' a 'Thrawsffiniol' a weithredwyd ym mis Ionawr 2020.

### **C15. A fydd unrhyw newidiadau yn dod i rym ar gyfer tymor pysgota 2022?**

Y nod yw i'r mesurau fod ar waith ar gyfer dechrau tymor pysgota 2022.

### **C16. Pam traferthu rheoleiddio ar gyfer niferoedd mor fach o bysgod?**

Gall hyd yn oed niferoedd cymharol fach o bysgod fod yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i adfer stoc, a nodir y bydd budd cronrus dros amser. Felly mae'n hanfodol bod stociau silio yn cael eu cynyddu i'r eithaf os yw poblogaethau am gael y siawns orau o ymadfer. Rydym wedi cymryd y dull bod 'pob pysgodyn yn bwysig' os yw'r stoc am ddychwelyd i lefel gynaliadwy.

Er mwyn cynnal stociau ar lefel sefydlog, rhaid i un pâr o eogiaid sy'n silio, ar gyfartaledd, gynhyrchu un pâr sy'n silio yn y genhedlaeth nesaf. Yn y gwyllt, mae eogiaid yn dodwy llawer o wyau, tua 5,000 i bob benyw yn nodweddiadol, fel yswiriant yn erbyn colledion naturiol ac i sicrhau cynhyrchiad dros ben gan wneud y defnydd manteisgar gorau o'r cynefin a'r bwyd sydd ar gael. O'r 5,000 o ofa hyn, bydd tua 4,700 yn deor y gwanwyn canlynol fel eogiaid ifanc mewn cynefin silio addas, ond efallai mai dim ond 360 fydd wedi goroesi fel brithyllod brych erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf. O'r rhain, dim ond tua 50 (1% o'r wyau sy'n cael eu dodwy) fydd yn cyrraedd y môr fel gleisiaid. O dan amodau 'cyffredin' gellir disgwyl i oddeutu 5% o leisiaid (llai na tri physgodyn) ddychwelyd fel oedolion, er y credir bod y cyfraddau goroesi morol presennol yn is na hyn. Felly, dim ond cyfran fach o wyau eogiaid fydd yn dod yn bysgod llawn dwf.

Mae poblogaethau'n cael eu rheoleiddio trwy fecanweithiau sy'n ddibynnol ar ddwysedd lle gall marwolaethau fod yn uwch ar ddwysedd poblogaeth uchel, ond mae'r goroeswyr yn gwneud yn well yn y dwyseddau is sy'n deillio o hynny. Daw'r mecanwaith hwn i ben yn ystod yr ail flwyddyn mewn dŵr croyw, ac wedi hynny ni chaiff unrhyw golledion eu digolledu gan y mecanwaith rheoleiddio hwn. Felly, mae marwolaethau gleisiaid, gleisiaid sydd wedi aeddfedu, neu bysgod llawn dwf ar unrhyw adeg yn golled nad yw'n cael ei ddigolledu.

### **C17. Pam na wnaethom fabwysiadu cyfyngiadau dull newydd a awgrymwyd ar gyfer pysgota bras yn Afon Gwy (newidiadau i fachau a gwahardd pryfed genwair)?**

Cyflwynwyd y cynigion hyn yng Ngrŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Gwy, ond yn nodedig, ni chawsant eu cefnogi gan y grŵp cyfan, fel dull o sicrhau cyfraddau da o oroesiad ar ôl rhyddhau unrhyw eog a ddaliwyd ar ddamwain gan enweirwyr bras.

Nid oes llawer o dystiolaeth bod pysgotwyr bras yn dal eogiaid yn ddamweiniol, ac mae ein tîm gorfodi wedi'u hyfforddi ar gyfer adnabod genweirwyr sy'n defnyddio dulliau bras i dargedu eogiaid yn anghyfreithlon, ac yn brofiadol yn hynny o beth.

Gallai'r cynigion hyn gael effaith andwyol anfwriadol ar bysgota bras, sydd wedi dod yn fwyfwy poblogaidd ac yn fwy hygyrch dros y 20 mlynedd diwethaf yn y dalgylch, gan gefnogi llawer o bysgodfeydd. Cafwyd gwrthwynebiadau gan rai cynrychiolwyr genweirio bras yng Ngrŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Gwy ac nid oes cefnogaeth gan y gymuned genweirio bras yn gyffredinol.

Awgrymwyd y gallai clybiau neu ddyfroedd wneud cais am gynigion neu gael eu heithrio ohonynt, ond byddai hyn yn feichus i'w reoli ac yn gymhleth i'w weithredu a'i orfodi. Nid oes unrhyw beth i atal clybiau rhag gweithredu'r cyfyngiadau hyn ar eu dyfroedd eu hunain fel y gwelant yn angenrheidiol.

### **C18. Beth am newid dyddiad cychwyn y tymor pysgota yn Afon Gwy?**

Gwnaethpwyd cynnig gan rai perchnogion pysgodfeydd Gwy ar gyfer dechrau'r tymor pysgota eogiaid yn gynharach fel ffordd o fynd i'r afael â rhai pryderon a godwyd ynghylch colli cyfleoedd pysgota yn ystod y prif dymor canwio. Awgrymir y byddai tymor sy'n

cychwyn ar 26 Ionawr, dyddiad cychwyn cyffredin tan tua 25 mlynedd yn ôl, yn rhoi cyfleoedd i bysgota heb unrhyw amhariadau cyn mis Mawrth.

Asesodd CNC y cynnig hwn yn ofalus ac, wrth wneud hynny, ystyriodd y cynnydd posibl mewn ecsbloetio stoc fregus, un sydd yn sylweddol is na'i Gyfyngiad Cadwraeth. Yn yr asesiad hwn, daethom i'r casgliad y byddai mwy o bysgod yn cael eu colli i'r stoc ar ôl eu rhyddhau yn dilyn cyfrif am farwolaethau. Er nad oedd y nifer hwn yn uchel, gall hyd yn oed niferoedd cymharol fach o bysgod fod yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i adfer stoc, a nodir y bydd budd cronnus dros amser. Ni fyddai cynyddu ecsbloetio yn gyson â'n hegwyddorion na'n dull cyfredol o reoleiddio ecsbloetio. At hynny, ni fyddai'n gyson â chyngor Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd ac mae'n annhebygol o fod yn dderbyniol mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Mae'r mater o darfu ar bysgota yn sgil gweithgareddau canwio yn un y dylid ei gyfeirio'n briodol at Bwyllgor Cynghori statudol Mordwyo Gwy.

### **C19. Pam cynnig dod â'r tymor i ben wythnos ynghynt yn Afon Gwy uchaf (uwchben Pont Llanwrthwl ac yn yr isafonydd) pan na fydd yn arbed llawer o bysgod?**

Mae diwedd y tymor yn Afon Gwy i fyny'r afon o Bont Llanwrthwl ac mewn isafonydd ar 26 Hydref ar hyn o bryd, o'i gymharu â 17 Hydref i lawr yr afon o Bont Llanwrthwl. Roedd yr estyniad hanesyddol hwn i'r tymor yn cydnabod dyfodiad pysgod yn hwyr yn y rhannau uchaf o'r afon, ond fe'i lluniwyd yn ystod cyfnod o niferoedd cymharol uchel o eogiaid yn dychwelyd.

Mae'r wythnosau ychwanegol o bysgota wedi ecsbloetio cydran o'r stoc sydd wedi teithio'n bell i fyny'r dalgylch, yn agos at eu meysydd silio ac mewn cyfnod hwyr yn y cam aeddfedu; mae'n debyg bod y stoc yn cael ei wasanaethu'n well trwy ddiogelu'r pysgod hyn.

Er y cydnabyddir nad oes llawer o bysgod yn cael eu dal yn ystod yr wythnos olaf hon, mae'r cynnig yn cael ei wneud ar sail arbed eogiaid ger eu mannau silio ac mewn cyfnod aeddfedu hwyr, a hefyd i sicrhau cysondeb trwy gydol y dalgylch.

### **C20. Beth am ymestyn y tymor pysgota berdys/corgimwch yn Afon Wysg?**

O dan yr is-ddeddfau 'Cymru Gyfan', symudwyd dechrau'r tymor pysgota berdys/corgimwch ar bob afon i 1 Medi. Gwnaethpwyd hyn oherwydd gall pysgota berdys/corgimwch fod yn arbennig o effeithiol mewn amodau dŵr isel yn ystod yr haf pan fydd tymheredd y dŵr yn gyffredinol uwch na 18 gradd Celsius. Mae eogiaid sy'n cael eu dal ar y tymereddau hyn ac uwch yn llai tebygol o oroesi'r broses o ddal a rhyddhau. Ni wnaed unrhyw newid i ddiwedd y tymhorau pysgota berdys/corgimwch ar unrhyw afon yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod tymor 15 diwrnod ar gyfer pysgota berdys/corgimwch yn Afon Wysg yn fyrrach na llawer o'r afonydd eraill yng Nghymru, ac fe wnaethom asesu'r opsiwn i gynyddu'r tymor, fel yr awgrymwyd yng Ngrŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Wysg. Wrth



wneud hynny, roedd rhaid i ni ystyried y cynnydd posibl wrth ecsbloetio stoc fregus, un sydd islaw ei Gyfyngiad Cadwraeth. Ni fyddai cynyddu ecsbloetio yn gyson â'n hegwyddorion na'n dull cyfredol o reoleiddio ecsbloetio yn ehangach. At hynny, ni fyddai'n gyson â chyngor Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd ac mae'n annhebygol o fod yn dderbyniol mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Er nad yw'r golled ychwanegol amcangyfrifedig i'r stoc silio yn ymddangos yn llawer, gall niferoedd cymharol fach o bysgod fod yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i adfer stoc, a nodir y bydd budd cronnus dros amser.

## **C21. Beth am wahardd pysgota eogiaid â berdys yn Afon Wysg?**

O wrando ar yr adborth a gafwyd o'n hymgysylltiadau cyhoeddus, prin oedd y gefnogaeth i'r mesur o wahardd pysgota berdys/corgimychiaid am y tymor cyfan yn Afon Wysg. Credwn y bydd y rheolaethau dull a gyflwynwyd yn is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' yn helpu i wella goroesiad ar ôl rhyddhau. Ar ben hynny, daethom i'r casgliad yn ein Hasesiad Effaith Cydraddoldeb o'r is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' y gallai "gwaharddiad abwyd llawn gael effaith wahaniaethol ar enweirwyr a allai fod yn oedrannus neu'n anabl ac o bosibl yn llai abl i ymarfer technegau pysgota eraill."

## **C22. Pam nad ydym yn cynnig dechrau'r tymor troelli / pysgota â phluen dro (spinning) yn gynharach yn Afon Wysg?**

Cydnabyddir bod Afon Wysg yn wahanol i'r mwyafrif o afonydd eraill Cymru gan fod y tymor pysgota â phluen dro yn cychwyn yn hwyrach na'r tymor pysgota â phlu. Fodd bynnag, wrth asesu'r opsiwn a gynigiwyd yng Ngrŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Wysg, roedd rhaid i ni ystyried y cynnydd posibl mewn ecsbloetio stoc fregus, un sy'n is na'i Gyfyngiad Cadwraeth. Ni fyddai cynyddu ecsbloetio yn gyson â'n hegwyddorion na'n dull cyfredol o reoleiddio ecsbloetio yn ehangach. At hynny, ni fyddai'n gyson â chyngor Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd ac mae'n annhebygol o fod yn dderbyniol mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Er nad yw'r golled ychwanegol amcangyfrifedig i'r stoc silio yn ymddangos yn llawer, gall niferoedd cymharol fach o bysgod fod yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i adfer stoc, a nodir y bydd budd cronnus dros amser.

Ar ben hynny, mae risg bosibl o symud o bysgota â phlu i droelli fel dull o ddewis, a all fod yn llai cydnaws â lefelau uchel o oroesi dal a rhyddhau.

## **C23. Pam nad ydym yn cynnig gohirio dechrau'r tymor troelli / pysgota â phluen dro yn Afon Wysg?**

Nid yw'r awgrym i ohirio dechrau'r tymor troelli, fel y'i cyflwynwyd yng Ngrŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Wysg, yn fesur sy'n gyson â'n dull a gymerwyd yn yr is-ddeddfau 'Cymru Gyfan'. Byddai'n gosod cyfyngiadau ychwanegol ar un o'r ddau brif ddull genweirio ar yr afon, un sydd eisoes yn gyfyngedig yn ei dymor. Ni chefnogwyd y mesur yn eang gan Grŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Wysg, ac er y cydnabyddir y byddai arbediad i'r stoc, nid oedd yn fesur a ystyriwyd yn gymesur.

## **C24. Beth am ddewis dull o ddal a rhyddhau 100% ar frithyllod y môr yn Afon Wysg?**

Er ein bod yn cydnabod bod stociau o frithyllod y môr yn agored i niwed yn Afon Wysg ac y byddai'r mesur hwn yn dod ag arbediad i'r stoc, nid ydym yn credu y byddai dal a rhyddhau 100% yn Afon Wysg yn gymesur. Gwnaethom ystyried y cynnig (a wnaed yng Ngrŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Wysg) yn ofalus, ac er bod manteision i alinio'r afon â'r mesurau a gynigir ar gyfer Afon Gwy a Hafren, mae Afon Wysg yn wahanol i'r afonydd hyn o ran bod ganddi bysgodfa brithyllod y môr, er ei bod yn un bach. Yn hynny o beth, rydym wedi ceisio alinio'r mesurau â'r rhai a gymerwyd yn y mwyafrif o afonydd eraill yng Nghymru o dan is-ddeddfau 'Cymru Gyfan'.

## **C25. Beth am wahardd pysgota brithyllod y môr â mwydod yn Afon Wysg?**

Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn fod wedi cyflwyno rhai manteision i stoc brithyllod y môr, ni ystyriwyd ei fod yn ymateb cymesur. Ni fyddai wedi bod yn gyson â'r dull a gymerwyd ar y mwyafrif o afonydd eraill yng Nghymru, o dan is-ddeddfau 'Cymru Gyfan'. Nodwyd hefyd bod potensial i ddrysu a gwrthdaro â rheolau ar bysgota brithyllod, lle caniateir defnyddio mwydyn fel abwyd; ac ychydig o gefnogaeth a gafwyd i'r mesur gan Grŵp Pysgodfeydd Lleol Afon Wysg.

# **Arall**

## **C26. Os yw'r amodau'n parhau i waethygu, a ydych chi'n rhagweld cau pysgodfeydd?**

Mae cau pysgodfeydd yn cael ei ystyried yn opsiwn yn yr achos technegol, ond nid yw hwn yn opsiwn a ffefrir ar hyn o bryd. Yn ein dull, rydym wedi bod yn ymwybodol o gynnal buddion economaidd-gymdeithasol a fyddai'n cael eu colli pe bai pysgodfeydd yn cau.

Mae gan y mesurau arfaethedig gymal 'machlud' o wyth mlynedd i gyd-fynd â diwedd yr is-ddeddfau 'Cymru Gyfan' a 'Thrawsffiniol'. Fel rheol, rydym yn cynnig cyfnod o ddeg mlynedd sy'n ymwneud â dau gylch bywyd llawn ar gyfer prif oedran eogiaid ac sy'n gyson â'r dull a gymerwyd yn flaenorol.

Os yw stociau'n gwella, fel eu bod yn y categori 'Ddim mewn Perygl', byddem yn ceisio cynyddu cyfleoedd pysgota i'r eithaf a fyddai'n cynnwys llacio rheolaeth ar bysgota.

## **C27. A fydd gwerthiant trwyddedau yn gostwng o ganlyniad i'r newidiadau hyn?**

Nid ydym yn rhagweld y bydd gostyngiad amlwg yng ngwerthiant trwyddedau nac mewn ymdrech bysgota yn Afon Gwy neu Afon Wysg o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae'r is-ddeddfau arfaethedig yn adfer y mesurau cyfredol sy'n ymwneud â dal a rhyddhau. Mae Afon Gwy wedi bod o dan gyfyngiadau dal a rhyddhau ers 2012, yn ystod yr amser hwn, nid yw'r ymdrech pysgota wedi dirywio, yn hytrach, mae wedi dangos cynnydd bach.

## **C28. Beth ydych chi'n ei wneud am adar sy'n bwyta pysgod?**

Mewn ymateb i bryderon ynghylch adar sy'n bwyta pysgod, sefydlodd CNC grŵp cynghori allanol ar adar sy'n bwyta pysgod. Mae hwn yn grŵp sydd wedi'i hen sefydlu gyda chynrychiolaeth gytbwys rhwng pysgodfeydd a chyrrff anllywodraethol cadwraeth adar ac fe'i cefnogir gan ddau gynghorydd gwyddonol annibynnol - un ar boblogaeth pysgod a'r llall ar boblogaeth adar. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys Llywodraeth Cymru a Natural England; gweinyddir y grŵp gan CNC.

Mae'r grŵp yn gweithio ar broses a arweinir gan dystiolaeth a allai o bosibl arwain at bolisi newydd yn y maes gwaith pwysig hwn. Yn sgil gwaith diweddar, gweithredwyd arolygon adar sy'n bwyta pysgod dalgylch llawn mewn deg o'r dalgylchoedd eogiaid pwysicaf ledled Cymru. Trefnwyd arolwg llawn dilynol yn un o'r afonydd hyn yn ystod y tymor mudo gleisiaid, ochr yn ochr ag astudiaeth telemetreg gleisiaid, a bydd y dystiolaeth o hyn yn bwysig i unrhyw gynigion polisi yn y dyfodol.

Defnyddiwyd yr arolwg ehangach i gynhyrchu amcangyfrifon poblogaeth y fulfran a'r hwyaden ddanheddog yng Nghymru. Bydd y dystiolaeth hefyd yn cael ei defnyddio i ddatblygu modelau poblogaeth adar sy'n bwyta pysgod dalgylch-benodol a fydd yn cael eu defnyddio i archwilio gwahanol senarios rheolaeth fel cymorth i gamau cadwraeth eogiaid ac i atal difrod difrifol i bysgodfeydd dŵr llonydd yng Nghymru.

Rhoddir diweddariadau rheolaidd gan grŵp cynghori ar adar sy'n bwyta pysgod yng nghyfarfodydd Fforwm Pysgodfeydd Cymru a Grŵp Pysgodfeydd Lleol.

## **C29. Mae materion eraill yn bygwth niferoedd pysgod - beth ydych chi'n ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain?**

Cydnabyddir nad daliadau yw'r mater achosol o ran stociau gwael a bregus, a thrafodir y mwyaf perthnasol o'r rhain isod. Fodd bynnag, tra bo stociau'n anghynladwy, ni ellir caniatáu lladd pysgod i barhau a bygwth stociau ymhellach. Felly, rydym wedi dilyn cyngor rhyngwladol ar reoli stociau pysgod.

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae newid yn yr hinsawdd yn gymhleth ac yn bellgyrhaeddol ac yn effeithio ar gynefinoedd morol a dŵr croyw yn ogystal â chyfnodau cylch bywyd yr eog a'r brithyll trwy newidiadau yn nhymheredd y dŵr, ansawdd cynefinoedd a goroesiad ar y môr. Disgrifiwyd yr eog fel un o'r rhywogaethau mwyaf agored i newid yn yr hinsawdd.

Yn sylfaenol, rhywogaeth dŵr oer yw eogiaid a brithyllod, ac mae hyn yn llywodraethu eu dosbarthiad daearyddol.

Y rhagamcaniad cyffredinol ar gyfer Cymru yw hafau cynhesach a sychach, a gaeafau cynhesach a gwlypach. Mae llawer o ansicrwydd, ond mae materion allweddol yn dod i'r amlwg: bydd cynyddu tymheredd yr aer yn arwain at gynnydd yn nhymheredd dŵr wyneb,

ac wrth i hyn ddigwydd, gall nifer o effeithiau negyddol ar eogiaid ymddangos. Mae effeithiau biolegol uniongyrchol ar eogiaid yn cynnwys straen ffisiolegol, cynnydd mewn dirywiad cronfeydd ynni, cynnydd mewn tueddiad ac amlygiad i glefydau, ac aflonyddwch i ymdrechion bridio.

Gyda'i gilydd, mae'r newidiadau hyn yn rhoi straen ar y ddwy rywogaeth ac yn cael effaith andwyol ar gamau arbennig o sensitif yn eu cylch bywyd, yn enwedig atgenhedlu. Rydym eisoes yn arsylwi ar yr effeithiau hyn.

**Difrodi cynefinoedd:** Gall gweithgareddau fel amaethyddiaeth ddwys, rhai gweithrediadau coedwigaeth ac echdynnu graean lleol a thynnu swbstrad masnachol ar gyfer cynlluniau draenio newid strwythur afon, cynyddu gwaddodiad a lleihau ansawdd cynefinoedd eogiaid. Yn ogystal â hyn, gall echdynnu dŵr a hydro-reoleiddio newid hydroleg afon yn fawr, gyda'r newidiadau yn llif, tymheredd ac ansawdd afonydd yn cael effaith negyddol ar gynhyrchiant poblogaethau eogiaid.

**Ysglyfaethwyr:** Mae ysglyfaethu i'w gael mewn dŵr croyw ac yn y môr, gydag amrywiaeth o adar, pysgod a mamaliaid eraill i gyd yn bwydo ar eogiaid yn ystod gwahanol gyfnodau bywyd. Mae ysglyfaethu yn ffenomenon sy'n digwydd yn naturiol, ond mae problemau yn codi pan fydd nifer y pysgod yn isel neu pan mae rhwystrau'n cyfyngu ar ymfudiadau, a phan fo niferoedd ysglyfaethwyr yn annaturiol o uchel oherwydd ymyrraeth ddynol neu amodau ecosystem cyfnewidiol.

Gall ysglyfaethu ar wahanol gyfnodau bywyd fod yn hollbwysig, ond yn ystod cyfnod ieuencid y pysgod dŵr croyw yw pan fydd yr effeithiau ar eu mwyaf. Mae data o afonydd sy'n cael eu monitro yn awgrymu bod capasiti ar gyfer mecanweithiau digolledu poblogaeth yr eogiaid a'r brithyllod yn lleihau ar ôl y cam silod mân a brithyllod brych cynnar, ac yn dod i ben cyn y cam o droi'n leisiaid, gan leihau effaith colledion ysglyfaethu. Felly, yn ystod y cam tyngedfennol o droi yn leisiaid a mudo y gall y lefelau uchaf o effaith ddigwydd. Mae hyn yn peri'r pryder mwyaf.

**Rhwystrau wrth ymfudo:** Mae ymfudo o'r afon i'r môr ac yn ôl eto yn rhan allweddol o gylch bywyd yr eogiaid a brithyllod y môr, ond mae'n daith sy'n cael ei wneud hyd yn oed yn fwy heriol gan y nifer fawr o goredau, argaeau, morgloddiau, prosiectau hydrodrydanol, cwlferei, pontydd llanw a siliau sy'n blocio neu'n rhwystro eu llwybr. Hyd yn oed gyda llwybrau a rampiau pysgod ar waith i'w helpu i symud o amgylch y rhwystrau hyn, yn aml mae oediadau mudol sy'n achosi'r risg o fethu â mudo i ardaloedd pwysig o gynefin, a gall y tagfeydd hyn gynrychioli'r 'prif fannau' ysglyfaethu.

**Ansawdd dŵr (llygredd):** Mae llygredd dŵr yn un o brif achosion y dirywiad mewn stociau, gyda holl gamau bywyd pysgod yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol (trwy ddod i gysylltiad â chemegau a dyfroedd asidig) ac yn anuniongyrchol (trwy ddŵr ffo sy'n achosi ewtroffeiddio cynefinoedd dyfrol) mewn dŵr croyw a'r moroedd.

**Ecsbloetio cynaliadwy:** Mae gorecsbloetio yn digwydd pan fydd gormod o bysgod yn cael eu tynnu o boblogaeth mewn amgylcheddau dŵr croyw neu forol, gan achosi i lefelau'r boblogaeth honno ddisgyn yn is na'r lefel gynaliadwy. Yn y pen draw, mae hyn yn golygu llai o bysgod benyw llawn dwf sy'n dychwelyd, yn dodwy llai o wyau, sy'n arwain at boblogaeth llawer llai cydnerth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae CNC wedi cyflwyno cyfres o fesurau i leihau ecsbloetio stociau anghynladwy gan enweirwyr a rhwydwyr.

**Clefydau a pharasitiaid:** O'r 80 neu fwy o glefydau a pharasitiaid sy'n effeithio ar eogiaid, dim ond ychydig ohonynt sydd â thystiolaeth eu bod yn cael effeithiau sylweddol ar boblogaethau gwylt. Mae'r pla cornwydog (clefyd bacteriol), *Gyrodactylus salaris* (math o bryfed genwair parasitig) a Necrosis Croenol Briwiol (clefyd croen) yn dri chlefyd sydd wedi lleihau poblogaethau mewn ardaloedd penodol. Mae pob un yn brin iawn neu'n absennol ar hyn o bryd o Gymru a'r DU, fodd bynnag mae cyflyrau newydd yn aml yn codi, e.e. Clefyd Croen Coch.

**Rhywogaethau goresgynnol:** Mae peth tystiolaeth yn bodoli o effeithiau negyddol rhai rhywogaethau goresgynnol ar boblogaethau eogiaid a brithyllod gwylt, gyda chynnydd cyffredinol ledled y byd wrth gyflwyno a lledaenu planhigion ac anifeiliaid anfrodorol a goresgynnol (e.e. rhywogaethau pysgod anfrodorol, clymog Japan, a rhai pathogenau). Gallai'r pwysau hwn ddod yn bwysicach fyth yn y dyfodol trwy newid yn yr hinsawdd, cynnydd mewn cystadleuaeth, ysglyfaethu a chlefydau.

### **C30. Beth yw'r 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Eogiaid a Brithyllod y Môr 2020'?**

Mae'r cynllun hwn yn nodi'r materion a'r camau y mae CNC wedi ymrwymo iddynt er mwyn sicrhau yr amddiffynnir ac yr adferir poblogaethau eogiaid a brithyllod yn afonydd Cymru.

Mae'r ddwy yn rhywogaethau eiconig, y mae angen cynefinoedd dŵr croyw o safon arnynt er mwyn ffynnu. Maent yn dangos i'r gymdeithas ansawdd amgylcheddol ein dalgylchoedd, ac hefyd yn rhoi cyfleoedd pwysig ar gyfer gweithgareddau hamdden iach a gwerthfawr.

#### [Darllenwch y 'Cynllun gweithredu ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr yng Nghymru 2020'](#)

Yn gyffredin â'r rhan fwyaf o wledydd eraill ar draws dosbarthiad eogiaid Gogledd yr Iwerydd a'r amrediad o frithyllod y môr Ewropeaidd, mae poblogaethau wedi dirywio dros y degawdau diwethaf. Mae hyn wedi bod fwyaf amlwg ar gyfer eogiaid, ond yn ddiweddar gwelwyd dirywiad sydyn yn stociau brithyllod y môr Cymru.

Mae'r cynllun yn nodi bod Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'n partneriaid a rhanddeiliaid yn deall difrifoldeb presennol statws stociau eogiaid a brithyllod y môr a'r ffactorau lluosog sy'n effeithio arnynt, ac y byddwn, gyda'n gilydd, yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r rhain a'u datrys.

### **C31. Byddai stocio yn cynyddu nifer y pysgod sy'n dychwelyd i afonydd Cymru, felly pam wnaeth CNC wahardd stocio?**

Cynhaliwyd adolygiad llawn o stocio a'i effeithiau a'r risg bosibl gan CNC yn 2014 ac o ganlyniad i'r effeithiau negyddol posibl, rhoddwyd y gorau i stocio eogiaid a brithyllod y môr yn llwyr. Ni chaniateir unrhyw gynlluniau stocio eraill, heblaw'r rhai y cadarnhawyd y bydd eu hangen ar gyfer gwaith ymchwil sydd wedi'i bennu'n fanwl ac wedi'i dargedu ac, mewn achosion eithafol, ar gyfer adfer.



### **C32. Beth ydw i'n ei wneud gyda physgodyn sydd wedi marw neu bysgodyn sydd bron â marw?**

Yn anffodus, mae'n anochel y bydd marwolaethau o ganlyniad i bysgota. Mae hwn yn ganlyniad sy'n cael ei dderbyn, er ein bod yn gobeithio y bydd amlder hyn yn isel iawn - yn enwedig o ystyried y dull rheoli dull a nodir yn is-ddeddfau 'Cymru gyfan' a 'thrawsffiniol' gan sicrhau bod risgiau i bysgod sy'n cael eu rhyddhau yn cael eu lleihau.

Mae ein profiad ar Afon Wysg yn ystod y deg mlynedd diwethaf ac mewn mannau eraill wedi dangos bod nifer marwolaethau uniongyrchol pysgod a ddaliwyd â gwialen yn isel.

Mae'r risgiau o ran cadw afonydd ar agor a chaniatáu i bysgota barhau yn cynnal y buddion cymdeithasol ac economaidd wrth geisio amddiffyn stociau yn yr afon.

Os bydd pysgodyn yn marw ar ôl ei ddal, dylid gadael y pysgod yn yr afon a dylai'r pysgotwr ffonio ein canolfan gofal cwsmeriaid (0300 0653000). Os gallwn, byddwn yn casglu'r carcass o'r afon. Efallai y gallwn gael gwybodaeth fiolegol werthfawr o'r carcass.

### **C33. Beth yw diben ymateb i'r ymgynghoriad pan rydych chi eisoes wedi gwneud penderfyniad?**

Rydym wedi ceisio ymgysylltu'n eang â rhanddeiliaid wrth gysylltu'n anffurfiol mewn cyfarfodydd Grwpiau Pysgodfeydd Lleol Wysg a Gwy. Rydym wedi cyfrannu i drafodaethau ac wedi gwrandao'n ofalus ar bob sylw a'r cynigion terfynol a gyflwynwyd gan y Grwpiau, gan asesu pob opsiwn yn ofalus.

Rydym wedi cynnig mai ein cynigion ar gyfer is-ddeddfau yw'r opsiwn gorau ar gyfer amddiffyn y stociau eogiaid a brithyllod y môr bregus yn Afon Wysg ac Afon Gwy, gan hefyd ganiatáu i bysgota barhau er mwyn cynnal llawer o'r buddion economaidd-gymdeithasol.

Byddwn yn ystyried yr holl wybodaeth ychwanegol sy'n codi o'r ymgynghoriad ac yn ymateb i sylwadau a dderbynnir mewn ymateb i'n cynigion. Bydd unrhyw dystiolaeth a ddarperir mewn sylwadau sy'n newydd neu'n wahanol i'r hyn yr ydym wedi'i defnyddio yn ein hasesiadau yn cael ei hystyried ac, os yw'n briodol, gellir newid y cynigion. Wrth fabwysiadu neu wrthod cynigion newydd, byddwn yn ceisio mynd i'r afael yn llawn â chwestiynau ac annog gwrthwynebiadau i gael eu tynnu'n ôl. Bydd yr holl wrthwynebiadau sy'n bodoli a cheisiadau am gymeradwyaeth yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad ymgynghori a gyflwynir i Weinidog LIC.

### **C34. Ble y gallaf gael mwy o wybodaeth?**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni ar 0300 065 3000 neu anfonwch e-bost at

[Fisheries.Wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:Fisheries.Wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

## Llyfryddiaeth

Gregory, S.D., Bewes, B.E., Davey, A.J.H., Roberts, D.E., Gough, P. a Davidson, I.C. (2020). Environmental conditions modify density-dependent salmonid recruitment: Insights into the 2012 recruitment crash in Wales. *Freshwater Biology* 2020;00:1-19. DOI:10.1111/fwb.13609.

[Darllenwch fwy am y dull rhagofalus a fabwysiadwyd gan Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd a'i bartïon](#)

[Darllenwch Gynlluniau Gweithredu Sefydliad Cadwraeth Eogiaid Gogledd yr Iwerydd ac Adroddiadau Cynnydd Blynnyddol](#)